GWEITHDREFN AR GYFER CEISIADAU AM GYNRYCHIOLAETH GYFREITHIOL

1. Mae Gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn **Weithdrefnau Prifysgol mewnol ac nid ydynt yn brosesau cyfreithiol ffurfiol** ac felly ni ddylai fod angen i fyfyrwyr gael cynrychiolydd cyfreithiol mewn gwrandawiadau/cyfarfodydd. Argymhellir yn gryf bod myfyrwyr yn ceisio cefnogaeth ac arweiniad gan Undeb y Myfyrwyr neu'r Gwasanaethau Caplaniaeth gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â Rheoliadau a Gweithdrefnau'r Brifysgol.

2. Nid oes gan fyfyrwyr hawl awtomatig i gynrychiolaeth gyfreithiol. Os ydynt yn dymuno cael eu cynrychioli mewn gwrandawiad/cyfarfod, rhaid iddynt wneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk) o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad/cyfarfod. Rhaid i fyfyrwyr gynnwys enw'r cynrychiolydd arfaethedig a'r rhesymeg dros eu cais.

3. Mater i ddisgresiwn y Cadeirydd yw rhoi caniatâd ai peidio ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol, gyda chyngor cydweithwyr priodol. Bydd y Cadeirydd yn ystyried y rheswm dros y cais, er enghraifft:

    - Difrifoldeb y cyhuddiad ac a allai'r canlyniad arwain at amddifadu'r myfyriwr o'i hawl i ymarfer ei alwedigaeth ddewisol neu a allai ragfarnu'r hawl honno'n anadferadwy, a/neu a allai diarddel fod yn ganlyniad posibl.
    - A yw unrhyw bwyntiau cyfreithiol yn debygol o godi.
    - Gallu'r myfyriwr i ddeall yr achos yn ei erbyn.
    - Anawsterau gweithdrefnol.
    - Yr angen am degwch rhwng y Myfyriwr sy'n Ymateb a'r Parti sy'n Adrodd.

4. Bydd y Cadeirydd yn dod i benderfyniad ar y cais am gynrychiolaeth gyfreithiol o fewn 10 diwrnod gwaith o gael y cais gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

5. Atgoffir myfyrwyr y gallai ceisio cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol ychwanegu amser neu gymhlethdod ychwanegol i'w hachos, a allai effeithio ar amserlenni gweithdrefnol. Mae penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol ac nid oes hawl apelio o dan y Weithdrefn hon yn erbyn y penderfyniad.

6. Pan roddir caniatâd, gall y Brifysgol hefyd gael ei chynrychioli yn y gwrandawiad/cyfarfod gan unigolyn sydd â chymhwyster cyfreithiol. Bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith o gael caniatâd a fydd gan y Brifysgol hefyd ei pherson â chymhwyster cyfreithiol ei hun yn bresennol.

7. Os bydd myfyriwr sy'n ymateb yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol, gall person sydd â chymhwyster cyfreithiol y Brifysgol hefyd ddarparu arweiniad i'r Myfyriwr sy'n Adrodd yn ystod gwrandawiad, os nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n gyfreithiol ac os bydd angen gwneud hynny.

    Rôl unigolyn sydd â chymwysterau cyfreithiol y Brifysgol fydd:

- Rhoi unrhyw gyngor ac arweiniad sydd eu hangen ar y Pwyllgor er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaeth yn briodol (p'un a ofynnir am gyngor ai peidio) gan gynnwys ar unrhyw gwestiynau cyfreithiol, tystiolaeth, gweithdrefn a'i bwerau
- Cynorthwyo'r Pwyllgor i lunio ei resymau a chofnodi'r rhesymau hynny
- Sicrhau bod yr achos yn cael ei gynnal yn deg
- Cynorthwyo gyda holi tystion a/neu'r partïon er mwyn egluro unrhyw faterion yn yr achos
- Cynorthwyo partïon heb gynrychiolaeth i gyflwyno eu hachos (heb weithredu fel eiriolwr)
- Codi unrhyw bryderon ynghylch anghysondebau posibl wrth gynnal yr achos

Ni fydd y rôl yn ymestyn i:

- Chwarae unrhyw ran wrth wneud canfyddiadau ffeithiol
- Cyfarwyddo'r Pwyllgor ar y gyfraith neu grynhoi ffeithiau

8. Gall amodau (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) ddod â chaniatâd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol i warchod natur anffurfiol y weithdrefn fewnol. Er enghraifft, efallai y gofynnir i'r cynrychiolydd cyfreithiol:

- mynychu mewn rôl gefnogol yn unig (h.y. peidio â gofyn nac ateb cwestiynau i chi);
- cyflwyno eu cwestiynau ymlaen llaw;
- mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau/eiriolaeth drwy'r Cadeirydd lle gellir ystyried bod cwestiynau'n uniongyrchol i dystion yn peri gofid.

9. Bydd pobl/cynrychiolwyr cymorth cyfreithiol cymwys yn cael eu hysbysu'n glir o natur yr achos, hynny yw, nad yw'n broses gyfreithiol ac na fydd yn cael ei chynnal felly.

10. Lle na roddir caniatâd, rydym yn cydnabod y gallai fod angen amser ychwanegol ar y myfyriwr i ddod o hyd i gymorth arall. Rhaid iddynt gyflwyno unrhyw gais i ohirio unrhyw wrandawiad/cyfarfod sydd wedi'i drefnu i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr hysbysiad nad yw caniatâd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i roi.

11. Nid yw gwrthod caniatâd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol yn gwahardd nac yn cyfyngu ar hawl myfyriwr i ofyn am gyngor cyfreithiol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r hawl i geisio cyngor cyfreithiol ar unrhyw weithdrefn fewnol gwaith achos myfyrwyr, os bernir bod angen gwneud hynny, a all gynnwys achos lle nad yw myfyriwr wedi cael caniatâd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol.

12. Bydd y myfyriwr yn gyfrifol am dalu'r holl gostau am unrhyw gyngor cyfreithiol y mae'n ei drefnu ynghylch ei achos gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynrychiolaeth gyfreithiol a ganiateir; Ni fydd y Brifysgol yn ad-dalu'r costau cyfreithiol hyn.

<u>Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig</u>
Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd
Gweithdrefn ar gyfer Ymchwiliadau Disgyblu
Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad
Gweithdrefn Asesu Risg
Rheoliadau a Gweithdrefn Cymorth i Astudio